PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MAWRTH, 11 HYDREF 2016

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | Cynghorydd Howells(Caedeirydd) |
| | Y Cynghorwyr Hunt, Murphy, Sanders, Thomas, Walker a/ac Goddard |

27 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

28 : DATGAN BUDDIANNAU

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod ganddynt gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau ffurflenni Buddiant Personol wrth i'r eitem berthnasol agor.

29 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2016 fel gwir gofnod.

30 : STRATEGAETH Y GYMRAEG CAERDYDD DDWYIEITHOG 2017- 2022

Nododd y Cadeirydd bod cyfieithydd ar y pryd ar gael ar gyfer yr eitem hon ac felly gwahoddwyd yr Aelodau a'r Swyddogion i siarad Cymraeg neu Saesneg. Byddai'r cyflwyniad yn cael ei roi yn y Gymraeg a byddai'r holl sleidiau PowerPoint yn ddwyieithog.

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cynghorydd Bale, Arweinydd y Cyngor;
- Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol
- Ffion Gruffudd, Pennaeth Caerdydd Ddwyieithog

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Pwyllgor gyfle i ddod yn gyfarwydd gyda datblygiad polisi cenedlaethol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg; ac i gyfrannu at ddatblygiad polisi drwy ychwanegu ei bersbectif i'r ymgynghoriad ar gynnwys strategol Strategaeth y Gymraeg Caerdydd Ddwyieithog 2017/2022. Roedd y Strategaeth yn trafod gweledigaeth y Cyngor a'r strategaeth lefel uchel ar gyfer cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg wrth i'r ddinas dyfu. Byddai'r Strategaeth y Gymraeg 2017/2022 yn cael ei chyhoeddi er ystyriaeth y Cabinet erbyn Rhagfyr 2016. Felly, gwahoddwyd sylwadau'r Aelodau yn ystod y cam hwn i'w gynnwys yn yr ymgynghoriad ac wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu.

Cydnabuwyd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac hefyd y ffaith bod gan Gaerdydd rôl i hwyluso hyn drwy gefnogi strategaeth y Llywodraeth.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bale wneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Bale bod hyn yn rhan o Bolisi Llywodraeth Cymru ac yn derbyn bod rhaid gwneud mwy i ddatblygu ac annog y Gymraeg yng Nghaerdydd. Roedd llawer o sefydliadau'n cefnogi Strategaeth y Gymraeg, ynghyd â datblygiad Cynllun Gweithredu cadarn a fydd yn cefnogi'r Gymraeg. Roedd Yr Hen Lyfrgell (Canolfan Diwylliant Cymreig) yng Nghaerdydd yn cefnogi ac yn annog yr iaith ac yn cynnig gwasanaethau ac adnoddau a rennir i annog cyfeiriad newydd o ran yr iaith.

Rhoddodd Bennaeth Caerdydd Ddwyieithog ddiweddariad a chyflwyniad yn y cyfarfod.

Rhoddwyd trosolwg o weledigaeth Caerdydd Ddwyieithog. Cyflwyno'r Gymraeg i fywydau cyffredinol pobl. Cefnogi pobl sy'n dewis cyfathrebu yn eu hiaith ddewisol ac annog pobl i ddysgu'r Gymraeg ac i gefnogi ei datblygiad yn y ddinas.

Roedd y cyflwyniad yn nodi'r canlynol:

- Strategaeth Llywodraeth Cymru
  - Iaith fyw: iaith byw
  - Strategaeth Ddrafft Awst 2016 'miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'

- Chwe Maes Strategol
  - Y Teulu
  - Plant a Phobl Ifanc
  - Y Gymuned
  - Y Gweithle
  - Gwasanaethau Cymraeg
  - Seilwaith

- Ymgynghoriad
- Y Camau Nesaf'
  - Cynllun Gweithredu
  - Digwyddiad Ymgynghori
  - TUR
  - Cabinet
  - Cyngor Llawn

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod gwaith ar y gweill gydag Uned y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, er mwyn cynyddu canran y siaradwyr Cymraeg. Byddai'r poblogaeth gynyddol yng Nghaerdydd yn cyfrannu tuag at hyn ac roedd targed wrthi'n cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r twf posib.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor wybod bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi'i adnodd yn ffigyrau'r Cyfrifiad. Roedd hefyd tystiolaeth a oedd yn nodi nifer y bobl a oedd yn

dysgu ac yn siarad Cymraeg pan roedden nhw'n ifanc, ond sy'n peidio â siarad Cymraeg wrth fynd yn hŷn. Nod y targedau fyddai datblygu a chefnogi hyn.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod niferoedd mawr o genedlaethau cynt a oedd yn siarad Cymraeg ond sy'n methu â'i siarad hi mwyach. Roedd camau ar waith gyda Phrifysgol Caerdydd a'r Hen Lyfrgell er mwyn hybu'r Gymraeg ac i gefnogi dysgu gloywi ychwanegol. Nodwyd bod 17% o blant yng Nghaerdydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Ymhellach i hyn, dylid annog Cefnogaeth i'r Gymraeg mewn Addysg Cyfrwng Saesneg.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i rannu eu profiadau o'r Gymraeg, gan gynnwys y rhai a oedd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol gynradd ond na wnaethant barhau i siarad Cymraeg yn yr ysgol uwchradd.

Nodwyd pryder am rieni Saesneg a oedd â phlant mewn Addysg Cyfrwng Cymraeg; sut oedd cyfathrebu y tu allan i oriau'r ysgol? Ystyriwyd datblygu eu Cymraeg gartref yn hanfodol er mwyn cynnig cefnogaeth gyda'r Gymraeg i rieni a oedd yn siarad Saesneg.

Trafododd y Pwyllgor y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sector Cyhoeddus a Sefydliadau'r Llywodraeth. Mae Caerdydd wedi denu nifer sylweddol o gwmnïau Sector Preifat, a gofynnodd y Pwyllgor a oedd y cwmnïau hyn yn cymryd rhan yn y broses.

Cafodd Aelodau'r Pwyllgor wybod am y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg mewn Addysg Cyfrwng Saesneg ac am gyrsiau addysg bellach a oedd yn cael eu cynnal er mwyn cefnogi'r pontio hyn. Roedd Cwmnïau'r Sector Preifat hefyd yn cael eu hannog i lynu at Safonau'r Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth gan yr Ardal Gwella Busnes.

Cafodd y Pwyllgor wybod bod Llywodraeth Cymru yn ystyried plant yn peidio â dysgu a siarad yr iaith yn fethiant. Roedd Menter Caerdydd yn cynnal pecyn i gefnogi ac annog dysgu'r Gymraeg, gan gynnwys cefnogaeth a oedd yn canolbwyntio ar bob math o gynulleidfa. Cydnabuwyd nad oedd rhai plant yn ymwybodol o'r Gymraeg a'i hanes, ac felly roedd hyn yn canolbwyntio ar gynulleidfa wahanol. Roedd y Sector Cyhoeddus yn rhan o'r rownd gyntaf o sefydliadau a oedd wedi'u cynnwys yn y Safonau. Roedd y Gwasanaethau Brys yn rhan o'r ail rownd, a allai gynnwys y Sector Preifat hefyd.

Trafododd Aelodau'r Pwyllgor y tafodieithoedd gwahanol a oedd yn cael eu defnyddio ledled Cymru, ac nad oedd ffurf safonol o'r Gymraeg mewn gwirionedd. Ymhellach i hyn, roedd tystiolaeth o Saesneg yn cael ei siarad ar iardiau ysgolion cynradd Cyfrwng Cymraeg.

Ystyriwyd bod Cymraeg safonol yn cael ei defnyddio ar y teledu ar S4C er enghraifft, a bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio at ddibenion busnes.

Nododd y Pwyllgor bod Cyngor Caerfyrddin wedi ennill apêl yn erbyn Comisiynydd y Gymraeg. Roedd Aelodau'n poeni p'un ai a oedd gan Gaerdydd yr adnoddau i gefnogi'r Safonau. Roeddent yn benodol bryderus am sut gallai'r Cyngor fodloni'r Safonau'n gorfforaethol, gan gynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad yn weddol isel.  Roedd gan rhai aelodau staff ychydig o sgiliau yn y Gymraeg ac roeddent yn gallu cyfarch pobl, ond yn gyffredinol roedd angen datblygu hyn i fodloni'r gofyn.  Roedd materion adnoddau'n gyfyngedig, gan gynnwys lleoli'r adnoddau hyn i gyflawni'r gefnogaeth orau.  Roedd cydymffurfio hefyd yn broblem, ac roedd ychydig o achosion pan roedd Comisiynydd y Gymraeg wedi bod ynghlwm wrthynt.

Cytunodd y Pwyllgor fod Caerdydd yn arweinydd yn y sector cyhoeddus, ac roeddent yn bryderus am unrhyw bosibilrwydd o weinyddiaeth yn peidio â chydymffurfio yn y dyfodol.  Roedd yr aelodau'n poeni am y goblygiadau ynghylch bodloni Safonau'r Gymraeg o ran adnoddau, yn enwedig pan roedd gofyn am fuddsoddiad ariannol. Byddai dehongliad caeth o Safonau Comisiynydd y Gymraeg yn dod â heriau ariannol sylweddol i'r Cyngor ac yn lleihau'r tebygolrwydd o gydymffurfio.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod proses i'w dilyn, ac y dylid canolbwyntio ar lynu at y Safonau.  Roedd pobl yn cael eu penodi i swyddi Cymraeg Hanfodol drwy gydol y sefydliad, ac roedd hyn yn ei hun yn gynnydd.  Roedd Arwyddion Dros Dro ledled y Ddinas yn y broses o gael eu newid, oherwydd nawr roedd angen rhoi'r Gymraeg yn gyntaf.

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod y Cyngor yn cydymffurfio 83% â'r Safonau. Adnabuwyd rhai ardaloedd risg ac roedd y broses o fynd ar ôl hyn ar waith.  Roedd gan y Gymraeg yr un statws â'r Saesneg, ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol yn y sefydliad.  Dylid cynnig gwasanaeth cyfartal i ddefnyddwyr a phobl a oedd yn dewis defnyddio'r Gymraeg fel eu hiaith ddewisol.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i'r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi'i atodi)

## 31 : BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - BRIFF AR GYNNYDD

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol i'r cyfarfod:

- Y Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd
- Paul Orders, Prif Weithredwr
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
- Kate Ward, Prif Swyddog Polisi (Partneriaethau)

Nododd y Cadeirydd bod gan y Pwyllgor gyfle i ystyried cynnydd y Cyngor o ran mynd ar ôl gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn perthynas â threfniadau gweithio partneriaeth Caerdydd.  Roedd gan y Pwyllgor hwn gyfrifoldeb dros graffu gwaith partneriaeth y Cyngor, ac yn benodol dros graffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd.  Felly, yn unol â Chyfansoddiad y

Cyngor, byddai'r Pwyllgor yn chwarae rhan trosolwg strategol o ran perfformiad y BGC wrth symud ymlaen.

Atgoffwyd yr Aelodau bod y Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru o sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy gyfrannu at gyflawni targedau llesiant.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Bale wneud datganiad.

Nododd y Cynghorydd Bale bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i sefydlu fel ymateb i Ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.   Gwnaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ymgynnull am y tro cyntaf ym Mai 2016. Defnyddiodd partneriaid y cyfarfod er mwyn trafod ystod o faterion strategol, gyda phwyslais clir ar y Canlyniadau sydd bwysicaf i Ddinas Caerdydd a'r gwerth y mae modd i'r BGC ychwanegu drwy gyflawni'r hyn oll.  :

Arweiniodd trafodaeth y PSB at gytundeb ar ddwy fenter blaenoriaeth cynnar:

1. Datblygu Hyb Arloesedd Gwasanaethau Cyhoeddus
   Mae'r Lab (partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Nesta) wedi'i gomisiynu i roi gwybod i'r BGC ar sut all hyb arloesedd gefnogi gwaith y BGC drwy ddod â phartneriaid sector cyhoeddus ynghyd i drafod pa fodelau all gael eu defnyddio.  Gellid defnyddio hyb o'r fath i ymgysylltu ag arbenigwyr a rhanddeiliaid, megis yr Ardal Gwella Busnes, i fynd ar ôl yr heriau sy'n wynebu'r ddinas, megis NEETS.

2. Penodi Ymgynghorydd Her ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddod ag arbenigedd rhyngwladol i gefnogi a herio'r BGC wrth iddo gyflawni yn erbyn ei amcanion llesiant.   .

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am y dyletswydd statudol ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol cymunedau Caerdydd. Ymhellach i hyn, rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus asesu sefyllfa llesiant yr ardal, gosod amcanion llesiant lleol a fydd yn cyfrannu at gyflawni targedau llesiant Cymru, a chyhoeddi cynllun llesiant. Bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn arwain Fforwm Dinas ag ansawdd bywyd da gydag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid ar ddechrau'r Flwyddyn Newydd er mwyn datblygu ystod o flaenoriaethau ar gyfer y Ddinas. Yna, bydd y gwaith hwn yn cael ei ymgorffori i ddatblygiad Cynllun Llesiant Caerdydd. Eglurwyd na fyddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi nes Gwanwyn 2018 oherwydd amserlenni statudol.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Roedd y Pwyllgor yn deall bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd statudol ar Graffu; ac ymhellach i hyn, bod Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi dyletswydd ar y Pwyllgor hwn i graffu gwaith partneriaeth y Cyngor.  Bu i hyn gyflwyno newid mawr o ran y posibiliadau statudol i'r Pwyllgor a ffocws penodol y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad wrth symud ymlaen.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn awyddus i gael syniad am sut roedd y Bwrdd yn cael ei lywodraethu ar lefel weithredol a ph'un ai a fyddai is-grŵp neu system bwrdd rhaglen yn dal i gael ei ddefnyddio. Eglurwyd bod adolygiad llawn o strwythur presennol y bartneriaeth gyffredinol ar waith, ond y byddai'n rhaid sicrhau parhad y byrddau rhaglen hynny oedd yn parhau i fod yn addas i bwrpas ac yn gweithio'n effeithiol er mwyn goruchwylio'r gwaith a wnaed dan gyn-Fwrdd Partneriaeth Caerdydd wrth ddatblygu amcanion y BGC.

Gwnaeth y Pwyllgor gydnabod bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn atebol am ei berfformiad ond roedd yr Aelodau'n awyddus i sicrhau bod trefniadau llywodraethu priodol ar waith, ynghyd â chraffu statudol y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn rheoli ei berfformiad effeithiol. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd ynglŷn â'r ffaith y byddai gwaith cyn-Fwrdd Partneriaeth Caerdydd, yn benodol yr asesiadau angen manwl a oedd wedi'u cynnal, yn cael ei gynnal. Roedd yr Aelodau hefyd o'r farn y byddai'n hanfodol i lwyddiant trefniadau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bod cyraeddiadau gwaith partneriaeth anstatudol Bwrdd Partneriaeth Caerdydd yn cael eu hefelychu a'u hymgorffori mewn unrhyw waith partneriaeth yn y ddinas yn y dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd manyleb deddfwriaethol 'Aelodau Statudol' ac 'Aelodau a Wahoddir' y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn atal unrhyw fath o ymgysylltiad gyda phartneriaid eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o gymunedau ffydd Caerdydd, ac y byddant yn rhan o'r ymgynghori bob tro.

Nododd y Pwyllgor nad oedd y 7 Targed Llesiant cenedlaethol yn cynnwys unrhyw gyfeiriad penodol at addysg, sgiliau a dysgu a gofynnon nhw sut yr oedd y maes hwn am gael ei ymgorffori?

Nododd y Pwyllgor bod addysg, dysgu a sgiliau effeithiol yn hanfodol i ddau o Ganlyniadau Beth sy'n Bwysig Caerdydd: 'Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu' ac 'mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial'.

Roedd yr Aelodau'n gofyn pa ddulliau diagnostig a data perfformiad a oedd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r adroddiad Dinas Byw a'r Asesiad Llesiant.

Mae'r Bwrdd yn arwain ar ddatblygiad yr asesiad llesiant yng Nghaerdydd, a fydd yn adeiladu ar yr asesiad angen Beth sy'n Bwysig blaenorol. Bydd canlyniadau'r asesiad hwn yn llywio blaenoriaethau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth symud ymlaen a llywio'r Cynllun Llesiant yng Nghaerdydd.
Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod data o amryw o ffynonellau wedi'i ddefnyddio, gan gynnwys data dangosol, megis data cyfrifiad a data cymharu'r Dinasoedd Craidd, a data ansoddol, megis data Holi Caerdydd. Byddai ychydig o ddata ar gael ar lefel Partneriaeth Cymdogaeth.

Holodd yr aelodau am atebolrwydd democrataidd.

Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol wedi nodi gofynion penodol o ran cymeradwyo’r Cynllun Llesiant drwy gyfarfod o’r Cyngor Llawn, a threfniadau llywodraethu partneriaid, ynghyd â chylch gwaith penodol ar gyfer Craffu.

Holodd yr Aelodau ynglŷn â'r sefyllfa pe na byddai’r partneriaid yn cymryd rhan yn llawn. Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor bod cyfranogiad cynnar wedi bod yn gryf iawn ymhlith llawer o bartneriaid sydd wedi cymryd rhan, sy’n dystiolaeth pellach i gryfder ac ymrwymiad gweithio partneriaeth yng Nghaerdydd. Cafodd y Pwyllgor wybod bod ymgynghorydd her annibynnol yn gweithio gyda phartneriaid, a byddai sicrhau bod unrhyw rwystrau posib i gyfranogiad yn cael eu dileu. Nodwyd bod modd trafod materion sylweddol yn y maes hwn gyda Llywodraeth Cymru, ond nid oedd disgwyl y byddai angen gwneud hyn.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod rhai partneriaid wedi chwarae mwy o ran na rhai eraill yn y cynnig hwn a'i fod yn hanfodol i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn gallu cyfrannu'n llawn. Roedd gan yr Aelodau falch o glywed bod y Bwrdd wedi penodi ymgynghorydd her annibynnol, a oedd yn cael ei ystyried yn ddull defnyddiol a gwnaethant ofyn am Gylch Gorchwyl y swydd. Ystyriwyd hyn yn gyfle i’r Ymgynghorydd ymgysylltu â’r Pwyllgor i'w cefnogi nhw wrth ymgymryd â’u dyletswyddau statudol.

Nododd y Pwyllgor eu bod yn pryderu bod modd ystyried gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymarfer 'tic yn y blwch' fel tystiolaeth o gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth heb ddod ag unrhyw newid gwirioneddol. Mewn ymateb, pwysleisiwyd bod dull Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd o ran gofynion y Ddeddf yn canolbwyntio ar sicrhau dull yn seiliedig ar ganlyniadau a fydd yn sicrhau bod gweithio mewn partneriaeth yn ychwanegu gwerth i breswylwyr y ddinas.

Roedd yr Aelodau’n ymwybodol o ddisgwyliadau'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran newid diwylliant yn y ffordd yr oedd penderfyniadau am ddarpariaeth gwasanaethau lleol yn cael eu gwneud. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i sefydlu sut fyddai preswylwyr Caerdydd yn teimlo am y newid diwylliant hwn a sut fyddai’r sefydliad yn cyflawni’r newid diwylliant.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i’r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi’i atodi)



Croesawyd y canlynol i’r Pwyllgor:

- Y Cynghorydd Graham Hinchey, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Pherfformiad
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor bod yr eitem hon yn rhoi cyfle i’r Aelodau ymchwilio i Adroddiad Gwella Statudol Blynyddol y Cyngor 2015-16, cyn ei gyflwyno i’r Cabinet ar 13 Hydref 2016. Dan Fesur Llywodraeth Leol, roedd gofyn i’r Cyngor gyhoeddi ei Amcanion Gwella a sut roedd yn bwriadu eu cyflawni nhw. Roedd y ddogfen yn cynnig crynodeb ôl-weithredol o werthusiad perfformiad 2015-16.

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Cynghorydd Hinchey wneud datganiad.

Soniodd y Cynghorydd Hinchey am y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a’r Mesurau Atebolrwydd Perfformiad yn yr adroddiad, gan nodi bod perfformiad y Cyngor dan y dangosyddion hyn yn ei roi ymhlith y 3 Cyngor oedd wedi gwella fwyaf yng Nghymru. Gwelwyd gwelliannau sylweddol hefyd yn y fframwaith gwytnwch ariannol a monitro perfformiad. Roedd y Rhaglen Datblygu Sefydliadol yn datblygu projectau penodol ac yn cefnogi newid drwy'r sefydliad. Roedd y Sesiynau Gweithwyr yn dal i chwarae rhan fawr o ran ymgysylltiad a datblygiad staff, gan gynnwys yr ymgyrch ‘Gwneud Gwahaniaeth’. Roedd pwysau ariannol yn amlwg, ond yn yr un modd roedd cynnydd hefyd.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau.

Trafododd y Pwyllgor yr Amcanion Gwella a gofynnwyd am eglurder ynglŷn â sut y maen nhw’n ffitio yn fframwaith llywodraethu cyffredinol y Cyngor. Mewn ymateb, rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor bod yr Amcanion Gwella yn ymwneud ag un o bedwar Blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Roedd Aelodau’r Pwyllgor yn awyddus i wybod beth oedd wedi'i gyflawni yn erbyn y Canlyniadau Beth sy'n Bwysig. Nododd y Swyddogion bod y Strategaeth Beth sy’n Bwysig yn strategaeth ar gyfer y Ddinas gyfan ac felly caiff ei darparu drwy fecanweithiau partneriaethau Caerdydd. Mae’r Amcanion Gwella a’r Blaenoriaethau y maen nhw’n berthnasol iddynt yn cynrychioli cyfraniad y Cyngor at gyflawni amcanion Strategaeth Beth sy’n Bwysig.

Trafododd y Pwyllgor y Rhaglen Datblygu Sefydliadol a ddyluniwyd i ail-siapio’r Cyngor mewn ymateb i ystod o heriau critigol, gan gynnwys ei safle ariannol, a gofynnwyd pryd fyddai tystiolaeth o'r newid hyn yn dod i'r amlwg. Rhoddwyd gwybod i’r aelodau bod y Rhaglen Datblygu Sefydliadol wedi ymgymryd ag asesiad annibynnol o waith mewnol a oedd wedi'i adrodd i'r Pwyllgor yn flaenorol. Rhoddwyd gwybod i’r aelodau y byddai'r Rhaglen Datblygu Sefydliadol cael adolygiad allanol yn 2017 ac y byddai’r Pwyllgor yn rhanddeiliad allweddol yn y broses hon. Rhoddwyd gwybod i’r aelodau hefyd y byddai dadansoddiad o effeithiolrwydd y Rhaglen Datblygu Sefydliadol yn rhan o broses adolygu manwl. Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor y byddai gwaith yn cael ei gynnal i gynllunio ar gyfer y dyfodol ochr yn ochr â'r broses hon, i sicrhau bod y Cyngor mewn sefyllfa dda i ddiwallu'r heriau y mae ffactorau o'r fath yn eu codi megis twf yn y boblogaeth a newid demograffig.

Nid oedd yr aelodau o’r farn bod y broses gosod targedau yn eglur.  Rhoddwyd gwybod i’r aelodau bod gosod targedau yn flaenoriaeth barhaus, ac roedd cydweithio rhwng y Tîm Perfformiad Corfforaethol ac arweinwyr perfformiad cyfarwyddiaethau yn mynd ar ôl hyn.

Roedd y Aelodau’n poeni nad oedd yr adroddiad yn adlewyrchu'r cynnydd mewn rhai meysydd; er enghraifft, ni chyfeiriwyd at dargedau rhestr aros tai ac nid oedd y cynnydd mawr yn amlwg.

Rhoddwyd gwybod i’r Pwyllgor bod angen taro balans rhwng adnoddau cyffredinol y Cyngor ac anghenion amrywiol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno argymhelliad o ran gwella perfformiad, ac roedd y Rhaglen Datblygu Sefydliadol yn cefnogi ac yn datblygu’r ffordd ymlaen.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod y gwelliant a wnaed mewn llawer o feysydd, ond gwnaethant fynegi diddordeb mewn gweld mwy o fanylion ynglŷn ag atebolrwydd gorwariant y Cyngor.

PENDERFYNWYD: Ar ddiwedd y cyfarfod trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gyflwynwyd, ac ar ôl hynny cafodd Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad ei gyfeirio i ysgrifennu at y tystion i ddiolch iddynt am ddod i’r cyfarfod, fel y nodir yn y sylwadau a wnaed gan Aelodau (llythyr wedi’i atodi)

33 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

15 Tachwedd 2016

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified